WALES RECYCLING AWARDS
GWOBRAU AILGYLCHU CYMRU

Meini Prawf

Gwobr Cymunedol Ailgylchwr y Flwyddyn

Noddir gan

Mae'r wobr hon yn agored i holl Aelodau Cyflawn Cylch, a gwobrwyir y sefydliad sydd wedi gwneud orau o ran arddangos y cwbl, neu rai o'r canlynol:

- **Cynaliadwyedd** – tystiolaeth o symud tuag at sefydlogrwydd ariannol
- **Budd cymdeithasol** – cyfleoedd am waith (er enghraifft hyfforddiant, lleoliadau gwaith, gwirfoddoli a.y.y.b)
- **Ymwneud cymunedol** – prawf o effaith ar y gymuned leol, cadw gwerth deunyddiau yn y gymuned
- **Cyfraniad i'r sector** – rhyngweithio â sefydliadau ailgylchu cymunedol eraill, rhannu gwybodaeth, rhwydweithio
- **Dargyfeirio** - amrywiaeth o ddeunyddiau a gasglwyd, nifer y tunelli sy'n cael ei ddagyferiro o safleoedd tirlenwi, taclo ffrydiau gwastraff anodd
- **Marchnata a Hyrwyddo** – cyflwyno neges ailgylchu gref, cynyddu eu proffil, yn ogystal â phroffil y sector

Gwobr Blaengaredd

Noddir gan

Mae'r wobr hon yn agored i unrhyw sefydliad neu gwmni sy'n weithredol yng Nghymru, a byddwn yn gwobrwyo'r rheiny sydd wedi datblygu prosiect, cynnyrch, gweithgaredd neu wasanaeth blaengar sydd wedi rhagori yn un o'r meysydd canlynol yn ystod y 12 mis diwethaf:

- Taclo problem gyffredin mewn ffordd newydd neu ffordd eithriadol
- Meddu ar bwynt gwerthu unigryw
- Dargyfeirio deunyddiau newydd o safleoedd tirlenwi
- Darparu gwasanaeth unigryw
- Darparu cynnyrch newydd blaengar
- Marchnata nwyddau neu wasanaethau mewn ffordd greadigol a diddorol

Gwobr Partneriaeth Awdurdod Lleol

Noddir gan

Mae'r wobr hon yn agored i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Bydd Awdurdodau Lleol yn cael eu henwebu er mwyn cydnabod eu gwaith mewn partneriaeth â'r gymuned leol. Er y bydd yr enwebiad yn mynd i'r Awdurdod Lleol yn gyfan, gall sefydliadau nodi fod yr enwebiad er mwyn cydnabod person neu adran benodol yn yr Awdurdod Lleol.

WALES RECYCLING AWARDS
GWOBRAU AILGYLCHU CYMRU

Ffurflen Enwebu

Llenwch, arwyddwch, a dychwelwch y ffurflen hon mewn LLYTHRENNAU BRAS drwy'r post neu drwy ffacs at

Cylch, 113 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9PH, ffacs: 029 2066 5910

Nodwch am ba gategori gwobr yr ydych yn ymgeisio

Gwobr Ailgylchwr Cymunedol y Flwyddyn ☐
Gwobr Blaengaredd ☐
Gwobr Partneriaeth Awdurdod Lleol ☐

Rhaid i bob enwebiad gael eu cyflwyno erbyn **5pm dydd Llun, Medi 8fed 2008.** Ni fydd enwebiadau a dderbynnir ar ôl hyn yn cael eu hystyried.

Eich Manylion

Enw'r Sefydliad .....

Categori Aelodaeth ☐ Cyflawn ☐ Cysylltiol ☐ Ddim yn aelod

Enw ..... Swydd .....

Rhif ffôn ..... E-bost .....

Llofnod ..... Dyddiad .....

Enwebiadau (uchafswm o 300 gair)

Defnyddiwch y bocs isod i esbonio pam y dylai eich sefydliad ennill Gwobr Ailgylchu Cymru, gan gynnwys crynodeb o'r hyn y mae eich sefydliad yn ei wneud. Cyfeiriwch at y meini prawf sydd ar y dudalen amgaeedig. Nodwch, os ar restr fer, y bydd eich rheswm dros yr enwebiad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y bleidlais ar-lein, a'r bleidlais bost er mwyn penderfynu pwy fydd yn ennill bob gwobr.